

# **Camfanteisio ar blant** a **cham-drin plant:** canllaw ar Iaith Briodol

The Children's Society

napac The National Association for People Abused in Childhood

Child Sexual Exploitation Taskforce



# Cynnwys

**1.** Cyflwyniad

**2.** Pwy sy'n ddioddefwr?

**3.** Siarad â dioddefwyr camfanteisio a cham-drin

**4.** Mynegai termau amhriodol

**5.** Termau amhriodol

**6.** Adnoddau ychwanegol

# Ystyriaethau iaith

**At ddibenion eglurder a chysondeb, rydym wedi dewis defnyddio'r termau canlynol yn y canllaw hwn ar ei hyd.**

### Plentyn neu berson

Rydym yn defnyddio'r termau hyn wrth gyfeirio at blant, pobl ifanc ac oedolion sydd wedi cael eu cam-drin yn ystod plentyndod.

### Camfanteisio a/neu gam-drin

Rydym yn defnyddio'r disgrifiad hwn i gwmpasu camfanteisio, cam-drin, masnachu pobl, a chaethwasiaeth fodern. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod camfanteisio ar blant ac oedolion yn fath o gaethwasiaeth fodern a bod angen ymateb i'r troseddau hyn o dan y Ddeddf Caethwasiaeth Fodern [1], gan gynnwys sicrhau bod dioddefwyr yn gallu defnyddio'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (NRM) a derbyn cymorth cysylltiedig.

### Dioddefwr

Rydym yn cydnabod bod y termau 'dioddefwr' a 'goroeswr' yn cael eu defnyddio am yn ail, er bod ganddynt bwyslais gwahanol. Rydym wedi dewis defnyddio'r term dioddefwr yn y canllaw hwn er mwyn canolbwyntio ar y niwed y mae'r plentyn neu'r person wedi dioddef neu'n parhau i ddioddef, ac osgoi awgrymu bod y profiadau hyn wedi'u datrys.

[1] Deddfau Cyffredinol Cyhoeddus y DU, Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015.

# 1. Cymdeithas y Plant

### Beth yw iaith sy'n beio'r dioddefwr?

Mae iaith sy'n beio'r dioddefwr yn cyfeirio at unrhyw iaith sy'n awgrymu, yn fwriadol neu'n anfwriadol, mai'r dioddefwr sy'n gyfrifol am y gamdriniaeth y mae wedi'i dioddef. Mae'r iaith a ddefnyddiwn yn cael ei llunio a'i normaleiddio o fewn y diwylliannau rydym ni'n gweithio, yn byw, ac yn treulio amser ynddynt. Wrth i iaith esblygu, mae'n bosibl na fydd ymadroddion a arferai gael eu derbyn yn gyffredinol ar un adeg yn briodol bellach. Felly, mae'n hollbwysig sicrhau bod gennym agwedd agored a myfyriol er mwyn sicrhau bod ein hiaith yn esblygu mewn ffordd sy'n cefnogi ac yn parchu pob unigolyn.

### Effaith iaith sy'n beio'r dioddefwr

**Mae'r iaith a ddefnyddir gan weithwyr proffesiynol a chymdeithas yn atgyfnerthu'r cywilydd a'r euogrwydd sy'n cael eu teimlo gan ddioddefwr neu oroeswr.**

→

**Gall hyn roi hyder i gamdrinwyr ac ynysu dioddefwyr, gan gadarnhau'r agwedd**

'ni yn erbyn nhw'.

→

**Gall hyn greu rhwystr rhwng y dioddefwr a gweithwyr proffesiynol diogelu:**

"Fyddan nhw ddim yn fy nghredu i."

Mae'r camdriniwr yn **manteisio** ar hyn gan greu **mwy o bellter** rhwng y **dioddefwr** a'r **rhai sy'n gallu ei helpu**.



**Pan fydd iaith sy'n beio'r dioddefwr yn cael ei defnyddio ...**

**Mae dioddefwyr a goroeswyr yn clywed pethau fel hyn gan gamdrinwyr ...**

"Fydd neb yn dy gredu di."

"Does neb yn malio."

"Alli di ddim ymddiried yn neb."

"Ti'n berson drwg."

**Mae dioddefwyr a goroeswyr yn clywed pethau fel hyn gan weithwyr proffesiynol ...**

"Dydyn nhw ddim yn cydweithredu."

"Maen nhw mewn perthynas."

"Eu dewis nhw oedd o."

"Fe wnaethon nhw dderbyn yr arian."

**Mae dioddefwyr a goroeswyr yn clywed pethau fel hyn gan gymdeithas ...**

"Dydyn nhw'n ddim ond trwbwl."

"Roedden nhw'n gofyn amdani."

"Pam na wnaethon nhw ymladd yn ôl?"

"Pam na wnaethon nhw adael?"

**Mae'r dioddefwr neu'r goroeswr yn cael ei orfodi i deimlo fel hyn ...**

"Maen nhw'n esgus eu bod nhw'n malio amdana i."

"Maen nhw'n meddwl mai fi sydd ar fai."

"Bydd pethau'n gwaethygu os dwi'n trio dianc."

"Fydd neb yn fy nghredu i."

"Fedra'i ddim ymddiried yn neb."

"Roedden nhw (y camdriniwr) yn iawn."

"Fydd dim byd yn newid."



## Pam rydym ni wedi datblygu'r canllaw hwn

Mae iaith sy'n beio dioddefwyr yn gwaethygu'r trawma sy'n cael ei brofi gan oroeswyr camdriniaeth ac yn eu hatal rhag cael gafael ar gyfiawnder a chymorth. Mae adolygiadau achos difrifol yn tynnu sylw at effaith negyddol iaith sy'n beio dioddefwyr ar y dioddefwyr eu hunain ac ar ganfyddiadau proffesiynol a chyhoeddus o ddioddefwyr, gan eu gadael yn aml mewn sefyllfaoedd anniogel a chamdriniol. Mae hyn yn tanlinellu pwysigrwydd hanfodol osgoi defnyddio iaith sy'n beio dioddefwyr ym mhob math o gyfathrebu er mwyn sicrhau bod yr iaith sy'n cael ei defnyddio yn cefnogi, yn hytrach na'i bod yn niweidio dioddefwyr.

Mae'n hollbwysig bod terminoleg briodol yn cael ei defnyddio wrth drafod plant a phobl sydd wedi dioddef camfanteisio neu gamdriniaeth, neu sydd mewn perygl o ddioddef camfanteisio a chamdriniaeth. Mae'n rhaid osgoi iaith sy'n awgrymu bod y plentyn neu'r person yn gyfrifol mewn unrhyw ffordd am y gamdriniaeth a'r troseddau maen nhw'n eu dioddef, er mwyn sicrhau ein bod yn eu diogelu'n briodol. Hefyd, mae'n bwysig cydnabod nad yw plentyn yn gallu cydsynio i gael ei niweidio.

Pan ddefnyddir iaith a therminoleg briodol, mae dioddefwyr camfanteisio a cham-drin yn fwy tebygol o deimlo eu bod yn cael eu clywed a bod eu profiadau'n cael eu cydnabod. Gall hefyd helpu i feithrin ymddiriedaeth rhwng dioddefwyr a gweithwyr proffesiynol a chynorthwyo dioddefwyr i ddeall y camfanteisio a'r gamdriniaeth y maent wedi eu profi.

Dylech ystyried dylanwad eich iaith mewn gwybodaeth ysgrifenedig a sut y gallai'ch iaith newid safbwynt ac ymarfer unrhyw weithiwr proffesiynol sy'n derbyn y wybodaeth. Gall yr iaith a ddefnyddiwch newid yr ymatebion i blentyn neu berson, a'r canlyniadau ar eu cyfer, hyd yn oed pan na fyddwch chi'n eu cefnogi mwyach.

### Ar gyfer pwy mae'r canllaw hwn?

Mae'r canllaw hwn ar gyfer gweithwyr proffesiynol mewn cyd-destunau amrywiol, megis;

- wrth siarad â phlant sy'n dioddef camdriniaeth, neu sydd wedi dioddef camdriniaeth
- wrth siarad â pherson sy'n datgelu camdriniaeth a ddigwyddodd yn ystod plentyndod
- wrth siarad â gweithwyr proffesiynol eraill mewn lleoliadau amlasiantaethol
- wrth ysgrifennu neu adolygu nodiadau neu gofnodion achosion
- wrth drafod plant neu bobl gydag unrhyw weithwyr proffesiynol eraill, rhieni neu ofalwyr, busnesau, y cyfryngau neu aelodau'r cyhoedd
- wrth ddatblygu cynnwys addysgol yn ymwneud â chamfanteisio a/neu gam-drin
- wrth ddatblygu ymgyrchoedd neu wybodaeth yn ymwneud â chamfanteisio ar blant a/neu gam-drin plant
- wrth weithio gyda phlant a phobl i ailystyried a deall eu profiad o ddioddef camfanteisio a/neu gamdriniaeth.

## Sut rydym wedi datblygu'r canllaw hwn

Mae'r adnodd hwn wedi'i ddatblygu ar y cyd gan Gymdeithas y Plant a'r Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Pobl a Gafodd eu Cam-drin yn ystod Plentyndod (NAPAC), a dyma'r fersiwn ddiweddaraf o ganllaw iaith briodol Cymdeithas y Plant, a gyhoeddwyd yn gyntaf yn 2017.

Mae Cymdeithas y Plant yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant ac oedolion ifanc sy'n dioddef camfanteisio ledled Cymru a Lloegr, yn ogystal â gwneud gwaith newid polisi a systemau cenedlaethol i helpu i greu cymdeithas sy'n atal ac yn tarfu ar gamfanteisio ar blant ac yn helpu plant i barhau i fod yn obeithiol am eu dyfodol. Mae pob un o'r meysydd gwaith hyn yn darparu gwybodaeth uniongyrchol am y materion systemig sy'n cael eu hachosi, neu eu gwaethygu, gan iaith sy'n beio dioddefwyr.

Mae gan NAPAC arbenigedd mewn gweithio'n uniongyrchol gydag oedolion sydd wedi goroesi camdriniaeth yn ystod plentyndod. Mae'r gwaith hwn yn darparu gwybodaeth bwysig iawn am brofiadau pobl sydd wedi cael eu heffeithio gan gamdriniaeth, gan gynnwys pobl na fyddent wedi cael llais fel arall, yn enwedig dioddefwyr anhysbys.

Wrth ddiweddaru'r adnodd hwn, fe wnaethom ymgynghori â gweithwyr proffesiynol sy'n darparu  cymorth uniongyrchol ac yn gwneud gwaith gweithredol a strategol ym meysydd plismona, gofal cymdeithasol, a sefydliadau'r trydydd sector. Darparodd y gweithwyr proffesiynol hyn ddealltwriaeth bwysig i ni sydd wedi'i hymgorffori lle bynnag y bo modd, ac maen nhw wedi gwneud cyfraniad pwysig tuag at sicrhau bod y canllaw hwn yn diwallu anghenion y bobl hynny y mae wedi'i fwriadu'n bennaf ar eu cyfer.

Er nad oedd modd i ni ymgynghori â gweithwyr proffesiynol mewn rhai sectorau, mae'r adnodd hwn yn addas i bob gweithiwr proffesiynol sy'n rhyngweithio â phlant a phobl ac sy'n goruchwylio ymatebion iddynt.

The Children's Society | napac The National Association for People Abused in Childhood | Child Sexual Exploitation Taskforce

Mae adnodd 'Big Up the Bill' Cymdeithas y Plant yn archwilio'r hyn y mae plant a phobl ifanc ei eisiau wrth ryngweithio â'r heddlu:

> *"Dylai'r heddlu ddefnyddio iaith briodol, a gwneud i'r person deimlo'n gyfforddus - dim rhegi na dweud y drefn."*
>
> **Big up the Bill**[2]

[2] Cymdeithas y Plant. Big up the Bill [Rhyngrwyd]. 2017 [cyrchwyd Awst 14 2024]. Ar gael yn: tce.researchinpractice.org.uk/big-up-the-bill/. t17.

Bu'r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol yn siarad â dioddefwyr a goroeswyr o ddemograffeg a lleoliadau amrywiol er mwyn deall eu profiadau o ddatgelu niwed a chamdriniaeth.

*"Dwi'n meddwl bod cymdeithas yn ei chyfanrwydd yn teimlo'n aml fod pobl (ac eithrio pobl heterorywiol a gafodd eu cam-drin gan bobl o'r rhyw arall) yn cydsynio mwy i'w camdriniaeth rhywsut."*

**Dioddefwr a goroeswr[3]**

*"Dwi'n teimlo bod gormod o fai ar bobl sy'n cael eu cam-drin."*

**Dioddefwr a goroeswr[4]**

*"Pan wnes i riportio'r digwyddiad cyntaf fe wnaeth pobl chwerthin ar fy mhen i. Roeddwn i'n destun tynnu coes... doedd neb ar gael i helpu mewn gwirionedd"*

**Dioddefwr a goroeswr[5]**

"Mae'r awdurdodau, yn enwedig yr heddlu, yn credu bod merched ifanc du yn datblygu'n gynt, ac felly mae yna deimlad gan rai eu bod yn "barod amdani"."

**Sefydliad cymorth i fenywod[6]**

"Mae bechgyn sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol wedi dweud wrthym na allan nhw ddweud wrth neb am eu profiadau oherwydd bod eu rhieni wedi dweud wrthyn nhw, "Dyw bechgyn ddim yn cael eu cam-drin.""

**Sefydliad sy'n cefnogi cymuned Gweriniaeth Ddemocrataidd Congo[7]**

[3] Yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (IICSA). Engagement with lesbian, gay, bisexual, transgender and queer/questioning+ victims and survivors [Rhyngrwyd]. 2022 [cyrchwyd Awst 14 2024]. Ar gael yn: https://www.iicsa.org.uk/document/engagement-lesbian-gay-bi-sexual-transgender-and-queer-questioning-victims-and-survivors.html t13.
[4] IICSA. Adroddiad yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol [Rhyngrwyd]. 2022. [cyrchwyd 24 Gorffennaf 2024]. Ar gael o iicsa.org.uk/document/report-independent-inquiry-child-sexual-abuse-october-2022-0.html. t.63
[5] IICSA. Adroddiad yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol [Rhyngrwyd]. 2022. [cyrchwyd 24 Gorffennaf 2024]. Ar gael o iicsa.org.uk/document/report-independent-inquiry-child-sexual-abuse-october-2022-0.html. t.63
[6] IICSA. Engagement with support services for ethnic minority communities [Rhyngrwyd]. 2021 [cyrchwyd 24 Gorffennaf 2024]. Ar gael yn https://www.iicsa.org.uk/document/engagement-report-ethnic-minority-communities-29-april-2021.html. t.16
[7] IICSA. Engagement with support services for ethnic minority communities [Rhyngrwyd]. 2021 [cyrchwyd 24 Gorffennaf 2024]. Ar gael yn https://www.iicsa.org.uk/document/engagement-report-ethnic-minority-communities-29-april-2021.html. t.28

# 2. Pwy sy'n ddioddefwr?

**Gall unrhyw blentyn neu berson ddioddef camfanteisio rhywiol a cham-drin rhywiol.** Fodd bynnag, gwyddom nad yw rhai pobl yn cael eu cydnabod yn ddioddefwyr.

Yn aml, mae ein profiadau ein hunain, tuedd fewnol, neu hyd yn oed ragfarn, yn gallu effeithio ar sut rydym yn adnabod ac yn ymateb i ddioddefwyr. Gall deall croestoriadedd helpu gweithwyr proffesiynol i herio eu tuedd eu hunain, neu duedd pobl eraill. Dylid ystyried y nodweddion canlynol wrth geisio penderfynu a yw rhywun yn ddioddefwr.

## Oedran:

- Ydy'r dioddefwr yn blentyn? Dydy plant ddim yn gallu cydsynio i'w camdriniaeth eu hunain.
- A ddechreuodd y gamdriniaeth pan oedd y dioddefwr yn blentyn?
- Os yw'r plentyn yn pontio i fod yn oedolyn, a oes cydnabyddiaeth nad yw'n stopio bod yn ddioddefwr ar ôl troi'n 18 oed?

## Anabledd

- A oes gan y plentyn neu'r person anabledd sy'n ei gwneud yn anodd iddo wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth, neu roi cydsyniad ar sail gwybodaeth?
- A oes gan y plentyn neu'r person anabledd neu anhawster dysgu sy'n ei gwneud yn anodd iddo ddeall yn llawn y gweithgaredd y mae'n cymryd rhan ynddo, hyd yn oed pan fydd yn anghyfreithlon?

## Rhywedd

- Ydy rhywedd y plentyn neu'r person yn golygu bod gweithwyr proffesiynol yn ei ystyried yn droseddwr, yn hytrach nag yn ddioddefwr?
- Ydy rhywedd y plentyn neu'r person yn golygu mai dim ond un math o gamfanteisio sy'n cael ei ystyried a bod eraill yn cael eu diystyru?
- Pe bai rhywedd y plentyn neu'r person yn wahanol, a fyddai'r sefyllfa'n cael ei chydnabod fel sefyllfa o gamfanteisio a/neu gam-drin?

## Hil

- Ydy'r plentyn wedi cael ei drin fel oedolyn oherwydd rhagdybiaethau a/neu ragfarnau am ei hil ac felly nad yw'r plentyn yn cael ei gydnabod yn ddioddefwr?
- Ydy hil y plentyn neu'r person yn effeithio ar a yw gweithwyr proffesiynol yn credu ei fod yn cydsynio i weithgarwch troseddol, sy'n golygu eu bod yn dilyn llwybr troseddol yn hytrach na llwybr diogelu?
- Ydy hil y plentyn, y person neu'r camdriniwr yn arwain at amharodrwydd proffesiynol i ymchwilio i honiadau yn sgil pryderon ynghylch cyhuddiadau o fod yn hiliol?

## Cyfeiriadedd rhywiol

- Ydy cyfeiriadedd rhywiol y plentyn neu'r person yn effeithio ar gydnabod y sefyllfa sy'n cael ei disgrifio fel sefyllfa o gamdriniaeth a/neu gamfanteisio?
- Ydy'r plentyn neu'r person yn cael ei ystyried yn gyfranogwr parod oherwydd ei rywioldeb?

## Cefndir economaidd-gymdeithasol

- Ydy cefndir economaidd-gymdeithasol y plentyn neu'r person yn effeithio ar a yw'n cael ei ystyried yn ddioddefwr, neu a yw'n cael ei ystyried yn berson sydd wedi cydsynio i'r gamdriniaeth neu'r troseddau a allai fod wedi'u cyflawni?
- Ydy cefndir economaidd-gymdeithasol y camdriniwr yn effeithio ar a yw'r dioddefwr yn cael ei gredu neu ei ddiystyru?

## Trawma

- Ydy hi'n bosibl fod y plentyn neu'r person yn dioddef trawma a allai effeithio ar sut mae'n ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol?
- Ydy ein profiad proffesiynol yn achosi syrffed ar dosturi (*compassion fatigue*)? Os felly, a allai hyn effeithio ar y ffordd rydym ni'n edrych ar ddioddefwyr ac yn ymateb iddynt?

Yn ogystal â herio ein systemau credo ein hunain a systemau credo pobl eraill, gall y cwestiynau canlynol ein helpu i ganolbwyntio ar brofiadau a galluogedd y plentyn neu'r person, ac archwilio'n feirniadol i ddeinameg grym a budd.

## Ystyriwch:

- pwy sydd â grym
- pwy sy'n elwa
- pwy sy'n gwneud y dewisiadau
- y canlyniadau os yw'r plentyn neu'r person yn dweud 'na'.

Canolbwyntiwch ar yr hyn sydd wedi digwydd i'r plentyn neu'r person yn hytrach na dod i gasgliadau am ei brofiadau. Mae angen cydnabod bod rhagdybio neu awgrymu cydsyniad yn cael effaith wirioneddol ar fywydau dioddefwyr. Gall gymryd blynyddoedd, a hyd yn oed degawdau, i ddioddefwyr ddod i delerau â'r ffaith eu bod wedi cael eu cam-drin, a gall beio dioddefwyr waethygu pethau'n fawr a chynyddu'r perygl y byddant yn cael eu herlid a'u cam-drin eto, gan roi hyder i gamdrinwyr ailadrodd eu troseddau.

Mae o leiaf 8.5 miliwn o oedolion yng Nghymru a Lloegr wedi dioddef rhyw fath o gamdriniaeth yn ystod eu plentyndod, [8] sef un o bob pedwar oedolyn.

O ystyried hyn, mae'n bwysig cofio, ar unrhyw adeg, y gallech fod yn dod i gyfarfyddiad, yn gweithio neu'n ymgysyllu â phobl sydd â phrofiad byw o gamdriniaeth, ac y gallent fod yn dioddef effaith trawma.

[8] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Child abuse in England and Wales [Rhyngrwyd]. 2020 [cyrchwyd 15 Gorffennaf 2024]. Ar gael yn: ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/bulletins/childabuseinenglandandwales/march2020.

# 3. Siarad â dioddefwyr camfanteisio a cham-drin

Er bod y canllaw hwn yn canolbwyntio ar yr iaith sy'n cael ei defnyddio gan weithwyr proffesiynol, rydym eisiau cydnabod hefyd y gallai'r plentyn neu'r person sydd wedi cael ei gam-drin ddefnyddio iaith sy'n beio dioddefwyr wrth siarad am ei brofiad neu brofiad pobl eraill.

Rydym eisiau pwysleisio nad oes 'un ateb sy'n addas i bawb' wrth gefnogi plant a phobl sydd wedi cael eu cam-drin, a bod angen mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn sicrhau bod cymorth priodol yn cael ei ddarparu sy'n diwallu anghenion penodol pob unigolyn.

Mae'n bosibl na fydd plant a phobl sydd wedi cael eu cam-drin yn credu eu bod yn ddioddefwyr. Felly, mae'n bosibl na fydd y canllaw iaith hwn yn addas o reidrwydd ar gyfer sgyrsiau gyda'r dioddefwyr eu hunain, ond gall eu defnydd o iaith sy'n beio dioddefwyr fod yn arwydd bod rhywun wedi meithrin perthynas amhriodol â nhw.

Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd y broses o adolygu iaith yn y canllaw hwn yn ddefnyddiol i rai gweithwyr proffesiynol sydd â phrofiad a hyfforddiant perthnasol, gan gynnwys gweithwyr camfanteisio a cham-drin arbenigol, yn enwedig yn ystod eu gwaith uniongyrchol i ddeall profiadau dioddefwyr.

Yn achos gweithwyr addysg proffesiynol a'r rhai sy'n datblygu ac yn cyflwyno cynnwys dysgu i blant ac oedolion yn ymwneud â phynciau fel cysylltiadau iach, cydsyniad, cyfiawnder troseddol, llinellau cyffuriau, twyll ac eraill, gall y canllaw hwn lywio'r iaith a ddefnyddir ac ymarferion sy'n archwilio'r broses o feio dioddefwyr a'r iaith briodol i ddefnyddio ynddynt.

Wrth siarad â dioddefwyr camdriniaeth o unrhyw oed, rydym yn argymell defnyddio dewis iaith y dioddefwr ei hun i'r graddau y bo hynny'n bosibl.

Cofiwch na all plant gydsynio i'w camdriniaeth eu hunain. Gellir defnyddio crebwyll proffesiynol a gwybodaeth am gamfanteisio, cam-drin a thrawma er mwyn ailddiffinio beth sydd wedi cael ei ddweud a dileu unrhyw fai ar y dioddefwr.



**Dyma rai ystyriaethau allweddol wrth siarad â dioddefwyr camfanteisio a cham-drin. Mae angen:**

- Creu amgylchedd lle mae'r person ifanc yn teimlo'n gyfforddus ac yn ddiogel.
- Bod yn ymwybodol o iaith eich corff, awgrymiadau di-eiriau, a thôn y llais.
- Rhoi cyfleoedd i blentyn neu berson wneud dewisiadau.
- Rhoi cyfleoedd i blentyn neu berson leisio barn.
- Gofyn cwestiynau agored mewn ffordd sensitif.
- Os oes modd, osgoi gorfodi'r plentyn neu'r person i ailadrodd ei stori sawl gwaith.
- Osgoi cwestiynau beirniadol a phersonol.
- Trin y plentyn neu'r dioddefwr mewn ffordd groestoriadol. Er enghraifft, ym mha ffordd y gallai rhywedd, dosbarth neu ddiwylliant yr unigolyn effeithio ar ei brofiadau?
- Bod yn sensitif i brofiadau negyddol blaenorol y gallai'r plentyn neu'r person fod wedi'u cael gyda gweithwyr proffesiynol, neu bobl mewn awdurdod.
- Symud ar gyflymder y plentyn neu'r person er mwyn iddo brosesu'r hyn sy'n cael ei ddweud a chael amser i lunio ei ymatebion.
- Cyfleu'r camau nesaf a rhoi diweddariadau i'r plentyn neu'r person.

Cofiwch: er y gallech chi fod yn trafod ac yn gweithio ar faterion o'r fath bob dydd, mae'n bosibl mai dyma fydd y tro cyntaf i'r unigolyn dan sylw siarad am y profiadau hyn, felly dylech ei drin ag empathi a pharch.



# 4. Mynegai termau amhriodol

**Blacmel rhywiol**

**Cam-drin gan gyfoedion**

**Cam-drin hanesyddol**

**Cariad, partner neu mewn perthynas â rhywun**

**Cynnig alcohol, cyffuriau, fêps neu sylweddau eraill iddynt yn gyfnewid am ryw, neu 'X'**

**Cogio, person ifanc, nominal**

**Cymryd rhan mewn ...**

**Cydsynio**

**Dosbarthu cyffuriau, dosbarthwr, gweithio a recriwtio**

**Dioddefwr alffa**

**Dynion ifanc yn puteinio**

**Ffordd o fyw anhrefnus**

**Gweithgaredd rhywiol gyda ...**

**Maen nhw'n aeddfed am eu hoedran**

**Maen nhw'n dewis byw fel hyn**

**Maen nhw'n gysylltiedig â gangiau neu'r byd troseddol**

**Maen nhw'n gwrthod ymgysylltu â gwasanaethau**

**Mae'r person ifanc yn agored i niwed**

**Mae angen iddyn nhw gymryd cyfrifoldeb am eu hymddygiad**

**Mewn perthynas gyda**

**Mul arian neu recriwtiaid mulod**

**Plygio, bancio, potelu neu stwffio**

**Pornograffi plant neu ddelweddau anweddus**

**Puteinio eu hunain**

**Rhoi eu hunain mewn perygl**

**Sawl partner rhywiol**

**Treulio amser gyda, neu gysylltu â...**

**Wedi bod yn cysylltu ag oedolion dros y ffôn neu'r rhyngrwyd**

**Wedi rhedeg i ffwrdd neu droseddwr**



# 5. Termau amhriodol

| Term | Effaith |
|---|---|
| **Blacmel rhywiol** (Sextortion) | Dyma derm a ddefnyddir yn gyffredin. Mae'n cyfeirio at niwed ar-lein lle mae camfanteiswyr yn cael gafael ar ddeunyddiau cam-drin plant yn rhywiol ac yn defnyddio'r deunyddiau hynny i gamfanteisio ar y plentyn sydd yn y ddelwedd.<br>Er bod y term yn cael ei ddefnyddio'n gyffredin, nid yw'n llwyddo i bwysleisio'r orfodaeth sy'n gysylltiedig â'r math hwn o gamfanteisio.<br>Ni all plant gydsynio i gael eu cam-drin ac ni ddylid byth eu dal yn gyfrifol am hyn nac am unrhyw ffurf arall ar gam-drin neu gamfanteisio.<br>Gall termau o'r fath fawrygu a bychanu'r gamdriniaeth a ddioddefodd y plentyn neu'r unigolyn a'r effeithiau hirdymor a ddaw i'w ran. |

**Dewis amgen**

- Mae'r plentyn neu'r unigolyn wedi bod, neu'n dal i fod, yn ddioddefwr blacmel rhywiol dan orfodaeth neu flacmel rhywiol â chymhelliant ariannol.
- Mae'r plentyn yn cael ei orfodi, neu wedi cael ei orfodi, i anfon delweddau cam-drin plant yn rhywiol ohono'i hun.
- Mae'r unigolyn yn cael ei orfodi, neu wedi cael ei orfod, i rannu delweddau rhywiol eglur.

| Term | Effaith |
|---|---|
| **Cam-drin gan gyfoedion** (Peer on peer abuse) | Mae defnyddio'r term hwn yn gwneud dim ond yn cydnabod y niwed a'r cam-drin sy'n gallu digwydd i blant o oedran tebyg neu gam datblygiadol tebyg, ac mae'n methu â chydnabod bod niwed neu gamdriniaeth yn gallu cael eu cyflawni gan blant yn erbyn plant o unrhyw oed neu gam datblygiadol.<br>Hefyd, mae'n bwysig cydnabod yr anghydbwysedd pŵer sy'n bodoli rhwng plant ar sail gwahaniaethau mewn nodweddion personol fel oedran, gallu, dosbarth a rhywedd. |

**Dewis amgen**

- Mae plant yn cam-drin plant yn digwydd.
- Mae'r sefyllfa sy'n cael ei disgrifio yn enghraifft o blant yn cam-drin plant.

| Term | Effaith |
|---|---|
| **Cam-drin hanesyddol**<br>(Historic abuse) | Hyd yn oed os nad yw'r plentyn neu'r person yn cael ei gam-drin ar hyn o bryd, bydd yn byw gyda'i effeithiau. Erbyn hyn, rydym yn gwybod bod cam-drin pobl yn cael effeithiau corfforol, seicolegol a chymdeithasol parhaol a mesuradwy arnynt.<br>Mae cyfeirio at unrhyw fath o gam-drin fel cam-drin hanesyddol yn gwadu bodolaeth yr effeithiau hyn ac yn lleihau difrifoldeb y troseddau y mae'r person wedi'u dioddef.<br>Gall yr iaith hon atal pobl rhag ymgysylltu â gwasanaethau, gan gredu ei bod yn rhy hwyr iddynt gael mynediad at unrhyw gyfiawnder neu gymorth. Gall hyn arwain at lawer o ganlyniadau anfwriadol, yn enwedig os yw'r person wedi cael ei gam-drin fel oedolyn. |

**Dewis amgen**

- Dioddefodd y person hwn gamdriniaeth pan oedd yn blentyn neu pan oedd yn iau.
- Mae'r plentyn neu'r person hwn yn ymgysylltu â ni ynglŷn â chamdriniaeth nad yw'n gamdriniaeth ddiweddar.
- Credwn y gallai'r person hwn fod wedi dioddef camdriniaeth ar wahanol adegau o'i fywyd, gan gynnwys yn ystod ei blentyndod.

| Term | Effaith |
|---|---|
| **Cariad, partner neu mewn perthynas â rhywun**<br>(Boyfriend, girlfriend, partner or in a relationship with) | Mae hyn yn awgrymu bod y plentyn neu'r person ifanc mewn perthynas gydsyniol, ac nid yw'n adlewyrchu'r cyd-destun cam-drin neu gamfanteisio gan gynnwys anghydbwysedd pŵer neu ymddygiad gorfodi a rheoli.<br>Gallai cyfeirio at gam-drin fel perthynas ddilys gadarnhau'r celwyddau a'r camfanteisio a ddefnyddir gan gamdrinwyr.<br>Hefyd, gall gael effaith negyddol ar sicrhau cyfiawnder i ddioddefwyr a sicrhau bod camdrinwyr yn cael eu dedfrydu'n briodol. Gwelwyd hyn mewn achosion lle mae plant ac oedolion sy'n dioddef wedi cael eu herio yn y llys gyda recordiadau o ymarferydd yn cyfeirio at y camdriniwr fel cariad neu bartner y dioddefwr. |

**Dewis amgen**

- Mae'r plentyn neu'r person yn dweud ei fod mewn perthynas â pherson. Fodd bynnag, mae yna bryderon am gydsyniad oherwydd oedran y person, anghydbwysedd pŵer, a/neu arwyddion o gamfanteisio a cham-drin.
- Mae rhywun yn meithrin perthynas amhriodol â'r plentyn neu'r person, yn camfanteisio arno, a/neu'n ei reoli, neu mae rhywun wedi gwneud hynny yn y gorffennol.
- Dydy'r person ddim yn darparu perthynas iach na diogel ar gyfer y plentyn neu'r person.
- Mae'r plentyn neu'r person yn defnyddio iaith sy'n awgrymu y gallai rhywun fod yn meithrin perthynas amhriodol ag ef, neu ei fod yn dioddef gorfodaeth.

| Term | Effaith |
|---|---|
| **Cynnig alcohol, cyffuriau, fêps neu sylweddau eraill iddynt yn gyfnewid am ryw, neu 'X'** (Offering them alcohol, drugs, vapes, or other substances in return for sex, or 'X') | Mae hyn yn awgrymu bod y plentyn neu'r person ifanc yn gyfrifol am y camfanteisio a bod ganddo'r gallu i wneud dewis rhydd a gwybodus. Nid yw'n cydnabod y cyd-destun cam-drin neu gamfanteisio.<br>Mae'n hysbys iawn bod camdrinwyr yn defnyddio cyffuriau, alcohol, fêps a sylweddau meddwol eraill i gam-drin plant. Yn yr un modd, mae rhoddion o bob math yn ddull cyffredin o feithrin perthynas amhriodol.<br>Mae troi'r plentyn neu'r person yn droseddwr yn dacteg a ddefnyddir gan gamdrinwyr i amddiffyn eu hunain rhag erlyniad. Mae cyfeirio at y plentyn neu'r person fel rhywun sy'n cydsynio o'i wirfodd yn atgyfnerthu'r tactegau a ddefnyddir gan gamdrinwyr. |

**Dewis amgen**

- Mae rhywun yn camfanteisio'n rhywiol a/neu'n droseddol ar y plentyn neu'r person.
- Mae cyffuriau neu alcohol yn cael eu defnyddio i hwyluso camfanteisio ar y plentyn neu'r person.
- Mae'r camdriniwr yn defnyddio caethwasanaeth oherwydd dyledion i barhau i reoli a chamfanteisio ar y plentyn neu'r person.
- Mae yna bryderon bod y plentyn wedi cael ei dreisio gan nad oedd ganddo'r rhyddid na'r gallu i gydsynio.
- Mae'r camdriniwr yn cam-drin y plentyn neu'r person yn rhywiol.

| Term | Effaith |
|---|---|
| **Cogio, person ifanc, nominal** (Cuckooing, juvenile, nominal) | Gall termau fel hyn ymddangos yn ddefnyddiol wrth nodi sefyllfa person ifanc, ond mae perygl y byddant yn dad-ddyneiddio'r unigolyn a'i drin fel oedolyn.<br>Dylid ystyried a disgrifio plentyn fel plentyn, hyd yn oed os yw'n wynebu cyhuddiadau troseddol, neu os yw wedi wynebu cyhuddiadau troseddol yn y gorffennol. Ar gyfer teuluoedd ac aelwydydd sy'n cael eu meddiannu gan grwpiau o droseddwyr, dylid cydnabod y feddianneth hon yn y modd y caiff ei henwi. Byddwch yn ymwybodol o unrhyw dermau sy'n gallu lleihau difrifoldeb y risgiau a'r niwed i'r plentyn neu'r person. |

**Dewis amgen**

- Mae'n bosibl eu bod yn dioddef camfanteisio, camdriniaeth neu'n cael eu masnachu at ddibenion camfanteisio rhywiol neu droseddol.
- Plentyn neu berson ifanc ydyn nhw.
- Maen nhw'n cael eu hystyried yn gyflawnwyr, er bod y troseddau a gyflawnwyd ganddynt yn deillio o'r ffaith eu bod yn ddioddefwyr camfanteisio a/neu gaethwasiaeth fodern.
- Mae eu tŷ neu eu llety wedi cael ei feddiannu gan droseddwyr neu grwpiau troseddu cyfundrefnol.
- Mae'r plentyn neu'r person wedi cael ei orfodi i gyflawni trosedd.

| Term | Effaith |
|---|---|
| **Cymryd rhan mewn...** (Involved in...) | Mae hyn yn awgrymu bod yna elfen o ddewis ynglŷn â chamdriniaeth y plentyn. Ni fyddai plentyn pump oed byth yn cael ei ddisgrifio fel rhywun sy'n ymwneud â cham-drin rhywiol am yr un rhesymau. |

**Dewis amgen**

- Mae'r plentyn neu'r person yn dioddef camfanteisio rhywiol.
- Mae'r plentyn neu'r person yn dioddef camfanteisio troseddol (er enghraifft, i ddosbarthu cyffuriau, cadw arfau, storio arian ac ati).
- Mae'r plentyn yn ddioddefwr masnachu pobl a/neu gaethwasiaeth fodern (lle mae'r camfanteisio yn ymwneud â'r cyflawnwr yn recriwtio, yn symud, neu'n cadw'r plentyn yn gaeth).

| Term | Effaith |
|---|---|
| **Cydsynio** (Compliant) | Mae'r term hwn yn awgrymu bod y dioddefwr yn barod i gymryd rhan yn y broses o gamfanteisio arno a/neu ei gam-drin, sy'n tanseilio natur gorfodaeth a rheolaeth. Mae'n awgrymu yn anghywir lefel o gydsyniad nad yw'n bodoli. |

**Dewis amgen**

- Gall ymddangos bod y plentyn neu'r person yn cydsynio yn sgil ofn neu fanipiwleiddio.
- Mae'r plentyn neu'r person yn dioddef gorfodaeth a rheolaeth.
- Gall ymddygiad y plentyn neu'r person fod yn strategaeth oroesi.
- Gall y plentyn neu'r person fod o dan bwysau sylweddol.
- Dylid edrych ar weithredoedd y plentyn neu'r person yng nghyd-destun ei gamdriniaeth.

| Term | Effaith |
|---|---|
| **Dosbarthu cyffuriau, dosbarthwr, gweithio a recriwtio** (Drug running, runner, work and recruit) | Mae'r termau hyn yn awgrymu bod y plentyn neu'r person yn gyfrifol am y camfanteisio a bod ganddo'r gallu i wneud dewis rhydd a gwybodus. Dydyn nhw ddim yn cydnabod cyd-destun y cam-drin neu gamfanteisio. Mae defnyddio termau sy'n awgrymu gweithredoedd neu gyflogaeth ddilys yn lleihau profiad y plentyn neu'r person o gamdriniaeth. Mae troi'r plentyn neu'r person yn droseddwr yn dacteg a ddefnyddir gan gamdrinwyr i amddiffyn eu hunain rhag erlyniad. Mae cyfeirio at y plentyn neu'r person fel rhywun sy'n cydsynio o'i wirfodd yn atgyfnerthu'r tactegau a ddefnyddir gan gamdrinwyr. |

**Dewis amgen**

- Mae'r plentyn wedi cael ei dargedu gan gamdrinwyr sy'n meithrin perthynas amhriodol ag ef neu'n ei orfodi i ddosbarthu cyffuriau.
- Mae'r plentyn yn ddioddefwr masnachu pobl ac mae rhywun yn camfanteisio'n droseddol arno.
- Mae'r plentyn yn cael ei fasnachu at ddibenion camfanteisio troseddol.

| Term | Effaith |
|---|---|
| **Dioddefwr alffa** (Alpha victim) | Er bod y term hwn yn cynnwys y gair 'dioddefwr', mae'n gosod hierarchaeth o ddioddefwyr. Mae'n awgrymu bod gan y dioddefwr bŵer a galluogedd heb adlewyrchu cymhlethdod gorfodaeth, rheolaeth a dewis cyfyngedig. Gall hyn yn ei dro arwain at wneud y dioddefwr yn droseddwr. Gall arwain at fethu â chydnabod anghenion cymorth parhaus y plentyn neu'r person ac mae'n lleihau'r risg a'r niwed parhaus sy'n wynebu'r unigolyn. Dydy'r term hwn ddim yn cydnabod y ffaith y gallai ymddangos bod y plentyn neu'r person yn cydsynio i berthynas amhriodol ac yn camfanteisio ar eraill er mwyn ei gadw ei hun yn ddiogel. |

**Dewis amgen**

- Mae'r plentyn neu'r person yn dioddef camfanteisio a/neu gamdriniaeth, ond mae hefyd yn achosi niwed i blant neu bobl eraill a/neu'n camfanteisio arnynt.
- Er bod y plentyn neu'r person yn achosi niwed i blant neu bobl eraill a/neu'n camfanteisio arnynt, mae'n parhau i ddioddef camfanteisio a/neu gamdriniaeth ei hun. Mae angen ymateb diogelu ar y plentyn neu'r person ynghyd ag unrhyw ymyriadau sydd eu hangen i'w atal rhag achosi niwed pellach i eraill.

| Term | Effaith |
|---|---|
| **Dynion ifanc yn puteinio**<br>(Rent boy) | Mae'r term hwn yn ymadrodd difrïol sy'n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio gweithwyr rhyw gwrywaidd ifanc, ac yn enwedig y rhai sy'n cael rhyw gyda dynion eraill. Mae'n derm homoffobig sy'n cael ei ddefnyddio yn aml i ddifrïo'r rhai nad ydynt yn ymwneud â gwaith rhyw. Hefyd, mae'n gallu cael ei ddefnyddio i ddisgrifio bechgyn o dan 18 oed a phobl sydd wedi dioddef cam-drin rhywiol, ac felly mae'n diystyru'r camfanteisio a'r cam-drin sydd wedi digwydd.<br>Mae anffurfioldeb termau fel hyn yn gallu cuddio'r gwirionedd, gan wadu pa mor ddiraddiol neu amhriodol ydynt, yn enwedig wrth siarad am ddioddefwyr troseddau difrifol fel cam-drin a chamfanteisio.<br>Mae'r term yn awgrymu bod y plentyn neu'r person ifanc yn gyfrifol am y gamdriniaeth a bod ganddo'r gallu i wneud dewis rhydd a gwybodus. Nid yw'n cydnabod y cyd-destun cam-drin neu gamfanteisio.<br>Hefyd, gellir defnyddio term rhyweddol a homoffobig fel hwn i leihau a diystyru effaith cam-drin rhywiol ar fechgyn a dynion, gan barhau â'r stereoteip mai dim ond merched sy'n dioddef camdriniaeth o'r fath.<br>Mae'r term puteindra plant wedi cael ei ddileu o'r ddeddfwriaeth, sy'n ei gwneud yn glir nad yw'r term yn dderbyniol bellach ac na ddylid byth ei ddefnyddio. |

**Dewis amgen**

- Mae rhywun wedi cam-drin neu gamfanteisio'n rhywiol ar y bachgen neu'r dyn.
- Mae pryderon bod y plentyn neu'r person wedi dioddef camfanteisio neu gam-drin rhywiol yn y diwydiant rhyw masnachol.
- Mae'r plentyn neu'r person wedi dioddef cam-drin rhywiol gan grŵp.



| Term | Effaith |
|---|---|
| **Ffordd o fyw anhrefnus**<br>(Chaotic lifestyle) | Mae'r term hwn yn debyg i ddisgrifio plentyn neu berson fel rhywun sy'n agored i niwed, a gall awgrymu mai'r unigolyn ei hun sydd ar fai am ei ddiffyg diogelwch.<br>Mae'n gwadu galluogedd, gan fethu â chydnabod y ffactorau cymhleth a allai olygu bod gan rywun opsiynau cyfyngedig ar gyfer sicrhau diogelwch a diogeledd.<br>Gall newidiadau rheolaidd fod yn ymateb i drawma, felly gall newid natur y sgyrsiau hyn er mwyn enwi'r pryderon penodol helpu i osgoi defnyddio label sy'n creu problemau. |

**Dewis amgen**

- Dydy'r plentyn neu'r person hwn ddim wedi gallu cael gafael ar gymorth effeithiol i'w alluogi i weithio tuag at ddiogelwch cynaliadwy.
- Mae'n bosibl bod y plentyn neu'r person hwn yn byw gyda thrawma.
- Mae'n bosibl y bydd angen i'r plentyn neu'r person hwn gael mynediad at amrywiaeth o opsiynau cymorth, sydd ar gael iddynt pan fyddant yn teimlo'n barod i'w defnyddio.
- Nid oes gan y plentyn neu'r person unrhyw ddiogeledd a diogelwch.

| Term | Effaith |
|---|---|
| **Gweithgaredd rhywiol gyda …**<br>(Sexual activity with …) | Mae hyn yn awgrymu bod gweithgaredd rhywiol cydsyniol wedi digwydd. Os yw’n digwydd mewn cyd-destun cam-drin neu gamfanteisio, nid yw’r term hwn yn briodol ac ni ddylid ei ddefnyddio.<br>Nid yw byth yn briodol os nad yw’r dioddefwr wedi gallu rhoi cydsyniad trwy ddewis ac nad yw wedi cael y rhyddid na’r gallu i wneud y dewis hwnnw.<br>Nid oes gan y dioddefwr ryddid na gallu i gydsynio dan yr amgylchiadau canlynol:<br>■ mae’n cysgu neu’n anymwybodol<br>■ mae grym corfforol yn cael ei ddefnyddio yn ei erbyn<br>■ mae’n feddw neu dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau<br>■ mae o dan 16 oed<br>■ mae’n 16 neu’n 17 oed ac mae’r person arall sy’n cymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol mewn rôl o ymddiriedaeth, fel swyddog heddlu, athro, meddyg neu weithiwr cymdeithasol.<br>■ mae o dan 18 oed a bod llun wedi’i dynnu ohono neu ffilm wedi’i gwneud ohono yn cymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol<br>■ mae ganddo gyflwr iechyd meddwl neu anabledd sy’n effeithio ar ei allu i wneud dewisiadau<br>■ mae o dan bwysau, yn cael ei fwlio, ei gamddefnyddio, ei dwyllo neu ei ddychryn i ddweud ‘ie’. |

**Dewis amgen**

- Mae’r camdriniwr wedi treisio’r plentyn neu’r person.
- Mae’r plentyn neu’r person wedi cael ei gam-drin yn rhywiol neu mae’n bosibl ei fod wedi cael ei gam-drin yn rhywiol.
- Mae yna bryderon y gallai’r plentyn neu’r person fod wedi dioddef gorfodaeth, camfanteisio, cam-drin rhywiol, neu wedi cael ei dreisio.

| Term | Effaith |
|---|---|
| **Maen nhw'n aeddfed am eu hoedran**<br>(They are mature for their age) | Mae'r ymadrodd hwn yn cael ei ddefnyddio gan amlaf wrth drafod merched sy'n credu eu bod nhw mewn perthynas gydsyniol â rhywun hŷn.<br>Pan mae gweithwyr proffesiynol yn defnyddio'r disgrifiad hwn, mae modd anwybyddu'r risg a'r niwed a all ddod i ran y plentyn, oherwydd ni chydnabyddir ei statws fel plentyn. Mae'r ymadrodd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer plant o bob rhywedd, ond yn aml mae'n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio merched er mwyn normaleiddio neu ddilysu'r bwlch oedran rhyngddynt a dynion hŷn.<br>Mae plant a phobl ifanc du mewn perygl mawr o gael eu 'hoedolyneiddio' gan weithwyr proffesiynol. Maen nhw'n llai tebygol o gael eu hystyried yn ddioddefwyr ac ystyrir bod ganddynt fwy o alluogedd, ymreolaeth a dewis nag sydd ganddynt mewn gwirionedd.<br>Mae hyn yn adlewyrchu mathau eraill o wahaniaethu. Felly mae'n bwysig i weithwyr proffesiynol fod yn ymwybodol o ragfarnau a gormes systemig sy'n effeithio ar fywydau plant. |

**Dewis amgen**

- Plentyn neu berson ifanc yw'r dioddefwr, ac mae'n dweud ei fod mewn perthynas â rhywun, ond mae yna bryderon ynglŷn ag oedran yr unigolyn hwnnw a'r anghydbwysedd pŵer yn y berthynas, a hefyd ynglŷn â chamfanteisio a/neu droseddu.
- Mae perthynas amhriodol yn cael, neu wedi cael, ei meithrin gyda'r plentyn neu'r person ifanc, mae'r plentyn neu'r person ifanc yn dioddef camfanteisio ac yn cael ei reoli.
- Rydym yn bryderus fod y plentyn neu'r person ifanc wedi disgrifio perthynas gamdriniol neu orfodaethol.
- Mae'r camdriniwr wedi manipiwleiddio'r plentyn neu'r person ifanc i gredu ei fod mewn perthynas.

| Term | Effaith |
|---|---|
| **Maen nhw'n dewis byw fel hyn**<br>(They are choosing this lifestyle) | Mae hyn yn awgrymu bod y plentyn neu'r person ifanc yn gyfrifol am y camfanteisio a bod ganddo'r gallu i wneud dewisiadau rhydd a gwybodus. Dydy'r ffactorau camdriniol neu gamfanteisiol ddim yn cael eu cydnabod. |

**Dewis amgen**

- Mae'r plentyn neu'r unigolyn yn dioddef camfanteisio neu gamdriniaeth.
- Mae'r plentyn neu'r unigolyn yn cael ei fasnachu at ddibenion camfanteisio.
- Ni all plant byth gydsynio i gamfanteisio.
- Efallai bod y plentyn neu'r unigolyn yn cael ei dargedu gan gamdrinwyr dro ar ôl tro, a bod hynny'n meithrin perthynas amhriodol â'r plentyn, ei orfodi, a diffyg mynediad at opsiynau diogel.
- Mae'r plentyn neu'r unigolyn yn cael ei orfodi a'i reoli ac ni all wneud dewisiadau rhydd.

| Term | Effaith |
| --- | --- |
| **Maen nhw'n gysylltiedig â gangiau neu'r byd troseddol**<br>(They are involved in a gang or criminality) | Mae'r ymadroddion yma'n awgrymu bod y person ifanc yn dewis gwneud hyn. Mae defnyddio'r term 'gang' yn bychanu'r trais a ddaw i ran pobl ifanc yng nghyd-destun troseddu cyfundrefnol a thrais ieuenctid. Hefyd, mae'n awgrymu dewis.<br>Ymhellach, mae yna awgrymiadau hiliol posibl yn gysylltiedig â'r ddelwedd negyddol sydd gan gymdeithas o gangiau ac aelodau gangiau, a gall hyn stigmateiddio mwy fyth unigolion a chymunedau nad ydynt yn wyn. |

**Dewis amgen**

- Mae'r plentyn neu'r unigolyn yn dioddef camfanteisio troseddol, gan grŵp troseddu cyfundrefnol yn ôl pob tebyg.
- Mae perthynas amhriodol yn cael ei meithrin gyda'r plentyn neu'r unigolyn, ac mae mewn perygl o ddioddef camfanteisio gan gamdrinwyr neu grwpiau troseddu cyfundrefnol.
- Mae'r plentyn neu'r unigolyn wedi dioddef masnachu pobl a/neu gaethwasiaeth fodern, ac mae rhywun yn camfanteisio arno er mwyn ei gymell i gyflawni troseddau.

| Term | Effaith |
|---|---|
| **Maen nhw'n gwrthod ymgysylltu â'r gwasanaethau**<br>(They will not engage with services) | Dydy hyn ddim yn llwyddo i gydnabod profiad blaenorol neu gyfredol y plentyn neu'r unigolyn o ran ymgysylltu â gwasanaethau, a gall effeithio ar ei ganfyddiad o gymorth.<br>Efallai y bydd disgwyl i bobl, yn enwedig plant neu bobl ifanc sy'n hysbys i wasanaethau statudol, siarad gyda llawer o weithwyr proffesiynol. Gall effeithiau cyllid, capasiti a newidiadau staff beri i ddioddefwyr deimlo eu bod wedi cael eu siomi a'u hanghofio ac nad oes cymorth ar gael iddynt.<br>Hefyd, mae hyn yn awgrymu yr ystyrir bod gwasanaethau'n ddiogel ac yn gefnogol i bob plentyn ac unigolyn, ac ni chydnabyddir y profiadau negyddol a allai fod wedi dod i ran dioddefwyr o du gweithwyr proffesiynol mewn swyddi pwerus.<br>Ymhellach, ni chydnabyddir y risg neu'r niwed parhaus a allai ddod i ran yr unigolyn – rhywbeth sy'n ei atal rhag ceisio neu dderbyn cymorth.<br>Hefyd, mae'r term hwn yn awgrymu bod y dioddefwr yn derbyn ei fod wedi dioddef camfanteisio a/neu gamdriniaeth; eto i gyd, nid yw llawer o blant ac unigolion yn cydnabod eu bod yn ddioddefwyr. |

**Dewis amgen**

- Oherwydd y trawma a ddaeth i'w ran yn sgil y camfanteisio neu'r gamdriniaeth, mae'r plentyn neu'r unigolyn yn ei chael hi'n anodd ymddiried mewn oedolion dieithr neu bobl mewn swyddi pwerus.
- Hyd yn hyn, dydy'r gwasanaethau ddim wedi dod o hyd i'r ffordd orau o feithrin perthynas gyda'r plentyn neu'r unigolyn.
- Cynigiwyd cymorth, ond nid oedd yn diwallu anghenion y person (ifanc) ar y pryd.
- Argymhellir y dylai'r gwasanaethau roi cynnig ar ddull arall er mwyn annog y plentyn neu'r unigolyn i ymgysylltu.
- Mae angen rhoi opsiynau gwahanol i'r plentyn neu'r unigolyn, ynghyd â'r gallu i ddewis sut a phryd y dymuna ymgysylltu.
- Rydym yn credu bod perthynas amhriodol wedi cael ei meithrin gyda'r plentyn neu'r unigolyn hwn ac y gall fod mewn perygl o fygythiadau gwaeth os daw pobl i wybod ei fod yn siarad gyda'r heddlu ac yn cynorthwyo gydag ymchwiliad.
- Dydy'r plentyn neu'r unigolyn ddim yn cydnabod ei fod mewn sefyllfa gamfanteisiol neu gamdriniol sy'n effeithio ar ei barodrwydd i dderbyn cymorth. Rydym yn cydnabod bod hyn yn cynyddu'r risg sy'n wynebu'r plentyn neu'r unigolyn.
- Mae yna bryderon y bydd y plentyn neu'r unigolyn yn cael ei fygwth pe bai'n riportio'r hyn sy'n digwydd.

| Term | Effaith |
|---|---|
| **Mae’r person ifanc yn agored i niwed** (Young person is vulnerable) | Mae’r term hwn yn werthfawr o ran cydnabod bod y plentyn neu’r unigolyn wedi dioddef camfanteisio, a gall helpu i annog empathi. Ond y sefyllfa sy’n berthnasol i’r unigolyn, yn hytrach na’r unigolyn ei hun, sydd wrth wraidd y bregusrwydd hwn.<br>Mae nodi’r bregusrwydd a’r ffactorau amgylcheddol hyn yn rhywbeth buddiol i’w wneud, nid yn unig er mwyn tynnu unrhyw gyfrifoldeb oddi ar y person ifanc ond hefyd er mwyn helpu i lunio ymyriadau amlasiantaethol – er enghraifft, mae’r person ifanc a’i deulu’n byw mewn tlodi acíwt ac mae hynny’n creu sefyllfa sy’n ei wneud yn agored i gamfanteisio.<br>Byddwch yn ymwybodol o dermau sy’n awgrymu bod y plentyn neu’r unigolyn yn wynebu risg gynhenid, yn enwedig oherwydd gall hyn arwain at fethu â chydnabod yn ddigonol dactegau camfanteisio rhagweithiol y camdriniwr. |

**Dewis amgen**

- Efallai bod y plentyn neu’r unigolyn mewn sefyllfa agored i niwed.
- Gallai’r amgylchedd neu’r sefyllfa roi’r plentyn neu’r unigolyn mewn perygl o ddioddef camfanteisio.
- Gallai’r sefyllfa o’i amgylch effeithio ar y plentyn neu’r unigolyn.
- Gallai’r cyd-destun(au) neu’r amgylchedd(au) beri bod y plentyn neu’r unigolyn yn agored i gamfanteisio.

| Term | Effaith |
|---|---|
| **Mae angen iddyn nhw gymryd cyfrifoldeb am eu hymddygiad**<br>(They need to take responsibility for their behaviour) | Efallai ei bod yn ymddangos bod y plentyn yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau gwael, ond nid oes yr un plentyn yn gyfrifol am y ffaith ei fod yn ddioddef camfanteisio.<br>Mae camfanteiswyr yn manipiwleiddio plant ac unigolion ac yn meithrin perthynas amhriodol â nhw er mwyn eu gorfodi i droseddu neu gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol. Yr unig un sy'n gyfrifol am hyn yw'r camfanteisiwr. |

**Dewis amgen**

- Mae'r plentyn neu'r unigolyn angen cymorth i ddeall natur gymhleth y camfanteisio.
- Mae'r plentyn neu'r unigolyn angen cymorth i ddeall beth yn union yw camfanteisio a'r modd y cafodd y berthynas amhriodol ei meithrin.
- Mae'r plentyn neu'r unigolyn angen cymorth i ddeall mai'r camfanteisiwr yw'r unig un sy'n gyfrifol am yr hyn a ddigwyddodd, ac nac yw'r plentyn ar fai o gwbl.
- Mae'r plentyn neu'r unigolyn angen help a chymorth i ddeall sut mae'r camfanteisiwr yn ei niweidio a deall nad yw'r camfanteisiwr yn gweithredu er lles pennaf y plentyn.

| Term | Effaith |
| --- | --- |
| **Mewn perthynas gyda** (In a relationship with) | Mae'r ymadrodd hwn yn awgrymu bod y plentyn neu'r person ifanc mewn perthynas gydsyniol, ac nid yw'n adlewyrchu'r cyd-destun cam-drin neu gamfanteisio gan gynnwys y defnydd o ymddygiad gorfodol a rheoli gan y cyflawnwr. |

**Dewis amgen**

- Mae'r plentyn neu'r person ifanc yn dweud ei fod mewn perthynas â pherson a bod yna bryderon am oedran y person hwnnw, anghydbwysedd pŵer, camfanteisio a/neu droseddu.
- Mae rhywun yn meithrin perthynas amhriodol â pherson ifanc, yn camfanteisio arno, a'i reoli, neu mae rhywun wedi gwneud hynny yn y gorffennol.
- Mae rhywun yn meithrin perthynas amhriodol â phlentyn neu berson, yn camfanteisio arno, a'i reoli, neu mae rhywun wedi gwneud hynny yn y gorffennol.

| Term | Effaith |
| --- | --- |
| **Mul arian neu recriwtiaid mulod** (Money mule or mule herders) | Mae'r iaith dad-ddyneiddiol hon yn achosi problemau oherwydd yn ei hanfod mae'n disgrifio plant a phobl y mae rhwydweithiau troseddol wedi manteisio arnynt i gyflawni twyll a gwyngalchu arian fel anifeiliaid.<br>Mae'r term 'mul arian' neu 'ful' yn golygu bod y sgwrs yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar weithredoedd y plentyn neu'r person - yn yr achos hwn, gweithgarwch bancio twyllodrus. Mae'n anwybyddu cymhlethdod y sefyllfa a natur y camfanteisio ar y plentyn neu'r person, ac yn awgrymu cydsyniad a galluogedd.<br>Yn yr un modd, mae disgrifio'r rhai sy'n meithrin perthynas amhriodol â phlant ac oedolion ac yn camfanteisio arnynt er budd ariannol fel 'recriwtiaid mulod' yn lleihau eu rôl fel troseddwyr cam-drin a throseddau cyfundrefnol. |

**Dewis amgen**

- Mae rhywun yn cam-fanteisio'n ariannol ar y plentyn neu'r person, neu wedi gwneud hynny yn y gorffennol.
- Mae'r plentyn neu'r person wedi cael ei dwyllo neu ei orfodi i gymryd rhan mewn gweithgareddau twyll a gwyngalchu arian.
- Mae'r plentyn neu'r person wedi cael ei orfodi i gadw arian anghyfreithlon yn ei gyfrif banc neu agor cyfrif at y diben hwn.



| Term | Effaith |
|---|---|
| **Plygio, bancio, potelu neu stwffio**<br>(Plugging, banking, bottling, or stuffing) | Defnyddir y termau slang hyn i ddisgrifio'r arfer o roi pecynnau cyffuriau yng nghorff plentyn neu berson, fel arfer yn y rectwm neu'r fagina ynghyd ag amlyncu geneuol.<br>Dydy anffurfioldeb y termau hyn ddim yn adlewyrchu realiti'r hyn sy'n digwydd i blentyn neu berson. Mae defnyddio'r termau hyn yn lleihau'r gamdriniaeth y mae plentyn wedi'i dioddef. Trwy ddefnyddio termau slang y mae camdrinwyr yn eu defnyddio hefyd, mae gweithwyr proffesiynol mewn perygl o atgyfnerthu'n negyddol y naratif o ddewis a bai.<br>Er nad yw'r arfer hwn yn cael ei gydnabod yn gyfreithiol fel cam-drin rhywiol, dylid ymateb i'r plentyn neu'r person mewn ffordd sy'n cydnabod y trawma rhywiol y mae wedi'i ddioddef. |

**Dewis amgen**

- Mae'r plentyn neu'r person wedi cael ei orfodi i guddio cyffuriau yn ei gorff.
- Mae'r plentyn neu'r person wedi cael ei orfodi i gario cyffuriau yn ei gorff.

| Term | Effaith |
|---|---|
| **Pornograffi plant neu ddelweddau anweddus**<br>(Child pornography or indecent images) | Mae'r term hwn yn methu â chydnabod bod meithrin perthynas amhriodol, gorfodaeth a chamfanteisio wedi arwain at y deunydd sydd wedi deillio o hynny.<br>Mae defnyddio'r term hwn yn awgrymu ei fod yn is-gategori o bornograffi cyfreithiol, derbyniol, yn hytrach nag yn fath o gam-drin plant a throseddu.<br>Nid yw chwaith yn mynd i'r afael â'r effaith hirdymor ar ddioddefwyr a'u hangen am gymorth a chefnogaeth, ac nid yw'n cydnabod y risg sy'n cael ei hachosi gan gamdrinwyr.<br>Mae'n anghyfreithlon i unrhyw un gadw, rhannu neu werthu deunydd cam-drin plant yn rhywiol, ac mae'n bwysig ystyried a allai cam-drin rhywiol fod yn digwydd hefyd. |

**Dewis amgen**

- Deunydd cam-drin plant yn rhywiol.
- Mae'n bosibl bod y plentyn hwn wedi cael ei orfodi i rannu deunydd cam-drin plant yn rhywiol.
- Mae'r camdriniwr wedi creu deunydd cam-drin plant yn rhywiol.

| Term | Effaith |
|---|---|
| **Puteinio eu hunain** (Prostituting themselves) | Mae hyn yn awgrymu bod y plentyn neu'r person ifanc yn gyfrifol am y gamdriniaeth a bod ganddo'r gallu i wneud dewis rhydd a gwybodus. Nid yw'n cydnabod y cyd-destun cam-drin neu gamfanteisio.<br>Mae'r term puteindra plant wedi cael ei ddileu o'r ddeddfwriaeth, sy'n ei gwneud yn glir nad yw'r term yn dderbyniol bellach ac na ddylid byth ei ddefnyddio. |

**Dewis amgen**

- Mae'r plentyn yn dioddef camdriniaeth a/neu gamfanteisio rhywiol.
- Mae'r plentyn yn ddioddefwr masnachu pobl a/neu gaethwasiaeth fodern (lle mae'r camfanteisio yn ymwneud â'r cyflawnwr yn recriwtio, yn symud, neu'n cadw'r plentyn yn gaeth, sy'n debygol iawn yn y cyd-destun hwn).
- Mae'r camdriniwr wedi treisio'r plentyn neu wedi hwyluso hynny.

| Term | Effaith |
|---|---|
| **Rhoi eu hunain mewn perygl** (Putting themselves at risk) | Mae hyn yn awgrymu mai'r plentyn neu'r person sy'n gyfrifol am y peryglon sy'n deillio o'r camdriniwr, ac y gall wneud dewisiadau rhydd a gwybodus heb gydnabod oedran, amgylchiadau a phrofiad byw'r plentyn neu'r person, neu wirioneddau meithrin perthynas amhriodol, gorfodaeth a rheolaeth.<br>Mae hyn yn awgrymu bod y plentyn neu'r person wedi dewis bod mewn perygl, ac mae'n diystyru'r diffyg opsiynau diogel a hygyrch neu'r pŵer i ddweud na. |

**Dewis amgen**

- Mae'n bosibl bod rhywun wedi meithrin perthynas amhriodol â'r plentyn neu'r person neu wedi camfanteisio arno.
- Mae diffyg ffactorau amddiffynnol sy'n gysylltiedig â'r plentyn neu'r person.
- Gallai'r sefyllfa leihau diogelwch y plentyn neu'r person.
- Mae'r lleoliad yn beryglus i blant.
- Mae pryderon y gallai rhywun fod yn camfanteisio ar y plentyn neu'r person.
- Dydy hi ddim yn glir a yw'r plentyn neu'r person o dan bwysau i fynd ar goll.
- Dydy hi ddim yn glir pam mae'r plentyn neu'r person yn mynd i mewn i gerbyd [x] neu'n ymweld â lleoliad [x].
- Mae pryderon bod yna anghydbwysedd pŵer yn gorfodi'r plentyn neu'r person i weithredu fel hyn.
- Mae pryderon ynglŷn â dylanwadau eraill ar y plentyn neu'r person.

| Term | Effaith |
|---|---|
| **Sawl partner rhywiol** (Promiscuous) | Mae hyn yn awgrymu bod gweithgaredd rhywiol cydsyniol wedi digwydd. Mae'r gair 'promiscuous' yn Saesneg yn enwedig yn derm beirniadol sy'n seiliedig ar ragdybiaethau. Hefyd, mae'n cynnwys rhagfarn sylweddol ar sail rhywedd gan mai'n anaml y caiff ei ddefnyddio i ddisgrifio bechgyn a dynion.<br>Mae'n awgrymu yn anghywir y gallai'r dioddefwr fod yn cydsynio i'r berthynas amhriodol a'r gamdriniaeth, sy'n dacteg a ddefnyddir gan gamdrinwyr i leihau eu cyfrifoldeb.<br>Nid yw'n briodol mewn unrhyw gyd-destun wrth drafod plant. |

**Dewis amgen**

- Mae'r plentyn neu'r person yn dioddef camdriniaeth a/neu gamfanteisio rhywiol.
- Mae'r plentyn neu'r person yn ddioddefwr masnachu pobl a/neu gaethwasiaeth fodern (lle mae'r camfanteisio yn ymwneud â'r cyflawnwr yn recriwtio, yn symud, neu'n cadw'r plentyn neu'r person yn gaeth).
- Mae'r cyflawnwr wedi defnyddio dulliau gorfodi a rheoli i gamfanteisio ar y plentyn neu'r person.
- Gall y plentyn neu'r person hwn fod yn ddioddefwr camfanteisio ailadroddus neu'n cael ei dargedu fel dioddefwr erledigaeth fwy nag unwaith gan un camdriniwr neu fwy.

| Term | Effaith |
|---|---|
| **Treulio amser gyda neu gysylltu â...** (Spending time with or associating with) | Pan ddefnyddir y term hwn mewn cyd-destun camfanteisiol, awgrymir bod y plentyn neu'r unigolyn yn dewis bod mewn cyswllt â'r sawl sy'n camfanteisio arno neu'r sawl sy'n meithrin perthynas amhriodol ag ef.<br>Hefyd, mae'r term yn awgrymu bod yna fai ar y naill ochr a'r llall mewn perthynas ag unrhyw weithredoedd camdriniol neu droseddol a wneir gan yr unigolyn sydd yng nghwmni'r plentyn. Mewn gwirionedd, nid oes gan blant sy'n cael eu gorfodi, eu rheoli neu'n dioddef camfanteisio y galluedd i wneud dewisiadau rhydd a gwybodus.<br>Os yw'r unigolyn hŷn o dan 18 oed, bydd angen ystyried y mater trwy ddefnyddio prosesau amddiffyn plant. |

**Dewis amgen**

- Mae'r plentyn neu'r unigolyn yn dweud ei fod yn ffrind i rywun. Ond mae pryderon ynglŷn ag oedran yr unigolyn hwnnw a/neu ynglŷn â'r anghydbwysedd pŵer, neu mae yna arwyddion o feithrin perthynas amhriodol, camfanteisio a/neu gam-drin.
- Mae perthynas amhriodol wedi cael ei meithrin gyda'r plentyn neu'r person, camfanteisiwyd arno, neu mae wedi cael ei reoli neu ei orfodi i gymryd rhan mewn gweithgaredd troseddol.
- Mae'r plentyn yn dioddef camfanteisio'n droseddol ar blant.

| Term | Effaith |
|---|---|
| **Wedi bod yn cysylltu ag oedolion dros y ffôn neu ar-lein**<br>(Has been contacting adults via phone or online) | Mae hyn yn awgrymu mai'r plentyn neu'r person ifanc sydd neu a oedd yn gyfrifol am gysylltu â'r oedolyn, ac nid yw'n adlewyrchu'r cyd-destun cam-drin neu gamfanteisio, gan roi mantais i gamdrinwyr feithrin perthynas amhriodol â'r plentyn neu'r person ifanc a chamfanteisio arno.<br>Mae canolbwyntio ar weithredoedd y dioddefwr yn hytrach na'r camdriniwr yn gallu atgyfnerthu'r gred mai'r plentyn neu'r person sydd ar fai am ei gamdriniaeth.<br>Mae defnyddio gofodau ar-lein yn rhan o fywydau bob dydd y rhan fwyaf o bobl. Mae natur ddienw gofodau ar-lein yn ei gwneud hi'n hawdd cysylltu heb rannu manylion personol, a gall camdrinwyr fanteisio ar hyn i guddio pwy ydyn nhw a'u cymhellion. |

**Dewis amgen**

- Mae yna bryderon bod yr oedolyn yn hwyluso neu'n ceisio hwyluso cyfathrebu gyda phlentyn neu blant.
- Mae yna bryderon y gallai eraill fod yn defnyddio technoleg ar-lein i gael mynediad at y plentyn neu ei gam-drin.
- Mae'n ymddangos bod camdrinwyr yn defnyddio dulliau gwahanol o gyfathrebu â'r plentyn neu'r plant.
- Mae'r plentyn neu'r person yn cael ei dargedu ar-lein gyda'r bwriad o gamfanteisio arno/ei gam-drin.

| Term | Effaith |
|---|---|
| **Wedi rhedeg i ffwrdd, troseddwr**<br>(Runaway, delinquent) | Mae'r termau hyn yn awgrymu mai'r plentyn neu'r person sydd ar fai, ei fod yn unigolyn problematig yn ei hanfod neu ei fod yn hoffi creu trafferth, ac mae'n awgrymu nad yw'n haeddu derbyn cymorth.<br>Mae'r term 'wedi rhedeg i ffwrdd' yn awgrymu bod y plentyn neu'r person wedi gwneud dewis personol i adael cartref neu ofal, er gwaethaf y posibilrwydd ei fod yn cael ei orfodi a'i reoli gan gamdriniwr, neu'n teimlo bod yn rhaid iddo adael er mwyn aros yn ddiogel oherwydd profiadau o ddioddef niwed, cam-drin neu wahaniaethu gartref.<br>Hefyd, mae'r term yn lleihau natur frys y sefyllfa er gwaethaf y posibilrwydd bod y plentyn ar goll ac mewn perygl o niwed difrifol.<br>Gall y termau hyn leihau'r tebygolrwydd y bydd gweithwyr proffesiynol eraill yn ymgysylltu'n adeiladol â'r dioddefwr. Gall ffactorau risg waethygu ac ymwreiddio wrth i'r person gael mwy o ymwneud negyddol â gweithwyr proffesiynol sy'n diystyru ei brofiadau ac yn anwybyddu ei anghenion.<br>Gall camdrinwyr ragweld y gwrthodiadau ymhlyg hyn gan weithwyr proffesiynol a defnyddio ymwneud negyddol i gynyddu'r rheolaeth sydd ganddynt dros sefyllfa a gadael y plentyn neu'r person heb unrhyw ddewis ymarferol am gymorth. |

**Dewis amgen**

- Mae'r plentyn neu'r person ar goll ar hyn o bryd, ac mae'n rhaid ymdrechu i ddod o hyd iddo a sicrhau ei fod yn ddiogel.
- Mae'n bosibl bod gan y plentyn neu'r person fywyd cartref ansefydlog, camdriniol neu wahaniaethol ac nad yw'n derbyn cymorth cadarnhaol.
- Mae'n anodd i'r plentyn neu'r person ymddiried mewn gwasanaethau a'u defnyddio.
- Mae'r plentyn neu'r person yn hysbys, neu wedi bod yn hysbys, i'r heddlu a/neu'r awdurdodau. Mae angen dilyn protocolau diogelu.

| Term | Effaith |
| --- | --- |
| **Wedi torri, wedi niweidio, â phroblemau**<br>(Broken, damaged, troubled) | Gall y termau hyn ddad-ddyneiddio plant a phobl sydd wedi dioddef neu sy'n parhau i ddioddef camfanteisio a cham-drin, ac maen nhw'n dileu unrhyw obaith am iachâd ac adferiad.<br>Mae'r termau hyn yn lleihau effaith camdriniaeth ac yn methu â chydnabod bod y camdriniwr/camdrinwyr yn gyfrifol am achosi niwed yn fwriadol.<br>Hefyd, mae'r termau hyn yn methu â chydnabod unrhyw gryfderau neu elfennau cadarnhaol sy'n bodoli ym mywyd y plentyn neu'r person, sy'n gallu effeithio ar sut mae gweithwyr proffesiynol eraill yn ymateb iddynt.<br>Mae'n bwysig cydnabod nad ydym yn gwybod pob dim am yr hyn y mae'r dioddefwr yn gorfod ymdopi ag ef, ac mae'n bosibl y bydd angen cymorth arno wrth ymgysylltu â'r broses gyfiawnder neu cyn hynny. |

**Dewis amgen**

- Mae'r plentyn neu'r person hwn yn byw gyda thrawma, gallai fod yn byw gyda thrawma, neu gallai fod wedi byw gyda thrawma yn y gorffennol.
- Mae'r plentyn neu'r person hwn wedi dioddef camfanteisio a/neu gamdriniaeth ac efallai y bod angen cymorth arno.



# Rhestr Termau

### Oedolyneiddio

Mae oedolyneiddio (*adultifiacation*) yn digwydd pan fydd rhagdybiaethau ynglŷn â phlant yn arwain at eu hystyried yn 'debyg i oedolion' a'u trin felly.[9] Mae oedolyneiddio'n effeithio yn anghymesur ar blant du, fel y gwelir mewn nifer o adolygiadau achosion difrifol mewn blynyddoedd diweddar. Mae'n peri i hiliaeth a stereoteipiau negyddol barhau, a gall arwain at fethiannau diogelu arwyddocaol.

### Camfanteisio'n droseddol ar blant

Pobl ifanc yn cael eu gorfodi neu eu manipiwleiddio i gyflawni troseddau er budd eu camfanteiswyr – dyna yw ystyr camfanteisio'n droseddol ar blant. Gall hyn gynnwys gorfodi'r person ifanc i dyfu neu fasnachu cyffuriau, begera dan orfod, gwyngalchu arian, dwyn cardiau credyd/ATM, pigo pocedi, dwyn cerbydau, a lladrata neu gyflawni trais.

### Camfanteisio'n rhywiol ar blant

Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn ffurf ar gam-drin rhywiol. Mae'n digwydd pan fydd unigolion neu grwpiau'n gorfodi, yn manipiwleiddio neu'n twyllo plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol er eu budd eu hunain. Gall hyn gynnwys gorfodi'r person ifanc i gymryd rhan mewn cyswllt rhywiol uniongyrchol neu anfon ffotograffau neu fideos anweddus.

### Syrffed ar dosturi

Mae'n cyfeirio at yr effaith emosiynol, gorfforol a seicolegol sydd ynghlwm wrth helpu eraill. O dro i dro, mae'n cael ei alw'n orludded. Yn Saesneg, defnyddir y termau *compassion fatigue* a *burnout*. Mae'r rhai sy'n gweithio'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol gyda phlant a phobl sy'n dioddef camdriniaeth (neu sydd wedi dioddef camdriniaeth) yn dod i gysylltiad â sefyllfaoedd trawmatig a llawn straen. Gall hyn arwain at deimlo'n ddiymadferth, neu gall hyd yn oed fychanu'r gamdriniaeth maent yn ymateb iddi yn eu rôl.

### Llinellau cyffuriau

Math o gamfanteisio troseddol lle mae grwpiau troseddu cyfundrefnol yn bygwth unigolion (plant a phobl ifanc yn bennaf) ac yn eu gorfodi i gadw, symud a gwerthu cyffuriau. Yn hanesyddol, mae'r diffiniad wedi canolbwyntio ar unigolion yn symud cyffuriau ar draws siroedd; fodd bynnag, mae'n amlwg erbyn hyn bod plant ac oedolion agored i niwed yn cael eu defnyddio i wneud hyn yn lleol yn ogystal ag ar draws pellteroedd maith. Hefyd, er bod yr elfen 'llinellau' yn cyfeirio at y llinellau ffôn a ddefnyddir i werthu cyffuriau, mewn blynyddoedd diweddar mae hyn wedi ymestyn i gynnwys dulliau ar-lein o feithrin cydberthnasau amhriodol gyda phlant ac oedolion agored i niwed, ynghyd â dulliau ar-lein o'u rheoli a dulliau ar-lein o gamfanteisio arnynt i'w cymell i werthu cyffuriau.

[9] Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi. Adultification bias within child protection and safeguarding [Rhyngrwyd]. 2022 [cyrchwyd 26 Gorffennaf 2024]. Ar gael ar: justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/wp-content/uploads/sites/5/2022/06/Academic-Insights-Adultification-bias-within-child-protection-and-safeguarding.pdf.

## Camfanteisio ariannol

Gall camfanteisio ariannol ddigwydd i unrhyw un, o unrhyw gefndir. Mae yna wahanol fathau o gamfanteisio ariannol, yn cynnwys camfanteisio oddi mewn i deuluoedd a lleoliadau gofal, a hefyd oddi allan i'r cartref. Mae camfanteisio ariannol yn ffurf ar gam-drin. Mae'n digwydd pan fydd unigolyn neu grŵp yn manteisio ar anghydbwysedd pŵer er mwyn annog neu gymell rhywun i ymgymryd â gweithgaredd ariannol a fydd o fudd i'r cyflawnwr neu'r hwylusydd. Efallai y bydd y cyflawnwr/cyflawnwyr yn gorfodi, yn rheoli, yn manipiwleiddio neu'n twyllo'r person ifanc. Yn aml, bydd gweithgaredd o'r fath yn cael ei ystyried yn weithgaredd troseddol, a bydd felly'n cael ei ystyried yn ffurf ar gamfanteisio'n droseddol ar blant; mae'n cynnwys gwyngalchu arian a thwyll ehangach, ymhlith pethau eraill.

## Croestoriadedd

Defnyddiwyd y term hwn am y tro cyntaf gan Kimberlé Crenshaw yn 1989 i ddisgrifio'r modd mae gwahanol gategorïau cymdeithasol, megis hil, rhywedd a dosbarth, yn croestorri a'r modd y gall unigolion brofi amrywiol fathau o anghydraddoldeb ac ymyleiddio cymdeithasol.

Defnyddiodd Crenshaw y term hwn am y tro cyntaf wrth ddisgrifio'r anfantais a ddaw i ran menywod du. Heddiw, defnyddir y term hwn yn ehangach i annog ymateb sy'n benodol i bob unigolyn ac mae'n cydnabod nodweddion unigol.

## Caethwasiaeth fodern

Caethwasiaeth fodern yw'r term ambarél a ddefnyddir i gwmpasu pob agwedd ar fasnachu a chamfanteisio. Mae'n cael ei ddiffinio yn Neddf Caethwasiaeth Fodern 2015. Mae caethwasiaeth fodern yn drosedd ddifrifol sy'n tramgwyddo hawliau dynol. Mae camfanteisio'n droseddol ar blant a chamfanteisio'n rhywiol ar blant yn ffurfiau ar gaethwasiaeth fodern.

# 6. Adnoddau ychwanegol


Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi. Adultification bias within child protection and safeguarding [Rhyngrwyd]. 2022 [cyrchwyd 26 Gorffennaf 2024]. Ar gael yn: **justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/wp-content/uploads/sites/5/2022/06/Academic-Insights-Adultification-bias-within-child-protection-and-safeguarding.pdf**.

Cymdeithas y Plant. Big up the Bill [Rhyngrwyd]. 2017 [cyrchwyd 14 Awst 2024]. Ar gael yn: **tce.researchinpractice.org.uk/big-up-the-bill/**.

Cymdeithas y Plant a MSOIC. Children young people and modern slavery [Rhyngrwyd]. 2021 [cyrchwyd 8 Gorffennaf 2024]. Ar gael yn: **flipsnack.com/CA7CFEBBDC9/cyp-and-modern-slavery_guidance-for-professionals-june-2021/full-view.html**.

Cymdeithas y Plant. Guidance: Engaging positively with young people [Rhyngrwyd]. 2022 [cyrchwyd 30 Gorffennaf 2024]. Ar gael yn: **childrenssociety.notion.site/LookCloser-resources-6cba9a52eb1b4d8abb1d627387836313**.

Cymdeithas y Plant. Online sexually coerced extortion [Rhyngrwyd]. 2024 [cyrchwyd 2 Gorffennaf 2024]. Ar gael yn: **childrenssociety.notion.site/LookCloser-resources-6cba9a52eb1b4d8abb1d627387836313**.

Cymdeithas y Plant. Professionals explainer: financial exploitation [Rhyngrwyd]. 2024 [cyrchwyd 2 Gorffennaf 2024] Ar gael yn: **childrenssociety.notion.site/LookCloser-resources-6cba9a52eb1b4d8abb1d627387836313**.

Cyngor y DU ar Ddiogelwch Plant ar y Rhyngrwyd. Challenging victim blaming language and behaviours when dealing with the online experiences of children and young people [Rhyngrwyd]. 2022 [cyrchwyd 2 Gorffennaf 2024]. Ar gael yn: **assets.publishing.service.gov.uk/media/631f57588fa8f5020b48555d/Victim_blaming_and_the_online_experiences_of_children_and_young_people_v3.pdf**.

CSA Centre. Communicating with children [Rhyngrwyd]. 2022 [cyrchwyd 20 Gorffennaf 2024]. Ar gael yn: **csacentre.org.uk/research-resources/practice-resources/communicating-with-children**.

IICSA. Engagement with lesbian, gay, bisexual, transgender and queer/questioning+ victims and survivors [Rhyngrwyd]. 2022 [cyrchwyd 24 Gorffennaf 2024]. Ar gael yn: **www.iicsa.org.uk/document/engagement-lesbian-gay-bisexual-transgender-and-queer-questioning-victims-and-survivors.html**

IICSA. Engagement with support services for ethnic minority communities [Rhyngrwyd]. 2021 [cyrchwyd 24 Gorffennaf 2024]. Ar gael yn: **www.iicsa.org.uk/document/engagement-report-ethnic-minority-communities-29-april-2021.html**

IICSA. The Report of the Independent Inquiry into Child Sexual Abuse [Rhyngrwyd]. 2022. [cyrchwyd 24 Gorffennaf 2024]. Ar gael yn: **iicsa.org.uk/document/report-independent-inquiry-child-sexual-abuse-october-2022-0.html**

IOPC. Violence against women and girls: guidance on ending victim blaming [Rhyngrwyd]. 2024 [cyrchwyd 25 Gorffennaf 2024] Ar gael yn: **policeconduct.gov.uk/publications/violence-against-women-and-girls-victim-blaming-guidance-feb-2024**.

NAPAC. Llyfryn cefnogi goroeswyr: **napac.org.uk/project/7-supporters-of-survivors/**

NAPAC. Canllawiau i'r cyfryngau ar adrodd am gamdriniaeth nad yw'n gamdriniaeth ddiweddar: **napac.org.uk/wp-content/uploads/2022/04/NAPAC_Media_Guidelines_2022.pdf**

NSPCC. Problematic and harmful sexual behaviour [Rhyngrwyd]. N.D. [cyrchwyd 30 Gorffennaf 2024]. Ar gael yn: **learning.nspcc.org.uk/child-abuse-and-neglect/harmful-sexual-behaviour**.

NSPCC. Why language matters: why we should never use 'child pornography' and always say child sexual abuse material [Rhyngrwyd]. 2023 [cyrchwyd 30 Gorffennaf 2024]. Ar gael yn: **learning.nspcc.org.uk/news/why-language-matters/child-sexual-abuse-material**.

Safeguarding Network. Child-on-child abuse [Rhyngrwyd]. 2023 [cyrchwyd 30 Gorffennaf 2024]. Ar gael yn: **safeguarding.network/content/safeguarding-resources/peer-peer-abuse/#definition-of-child-on-child-abuse**.

Yr Adran Addysg. Child sexual exploitation: definition and guide for practitioners [Rhyngrwyd]. 2017 [cyrchwyd 30 Gorffennaf 2024]. Ar gael yn: **assets.publishing.service.gov.uk/media/5a7f8e3640f0b62305b87dbc/CSE_Guidance_Core_Document_13.02.2017.pdf**.

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Child abuse in England and Wales [Rhyngrwyd]. 2020 [cyrchwyd 15 Gorffennaf 2024]. Ar gael yn: **ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/bulletins/childabuseinenglandandwales/march2020**.

**Mae gan bob person ifanc yr hawl i fod yn ddiogel, yn hapus, ac yn obeithiol am ei ddyfodol.**

Dyna pam rydym yn cynnal gwasanaethau ac ymgyrchoedd i helpu plant i drawsnewid eu bywydau a newid y systemau sy'n rhoi pobl ifanc mewn perygl. Gyda'n gilydd gallwn amddiffyn plentyndod pawb.

**childrenssociety.org.uk**

**X:** @childrensociety

**Instagram:** @ thechildrenssociety

**Facebook:** childrenssociety

**Ffôn:** 0300 303 7000

**Gweledigaeth NAPAC yw creu byd lle nad oes unrhyw blentyn yn cael ei gam-drin. Tan hynny, rydym eisiau gweld cymdeithas lle gall pawb sy'n cael eu heffeithio gan gamdriniaeth yn ystod plentyndod dderbyn y cymorth sydd ei angen arnynt, pan fyddant ei angen.**

Mae NAPAC yn cynnig cymorth di-dâl a chyfrinachol dros y ffôn a thrwy e-bost i bob oedolyn sydd wedi goroesi unrhyw fath o gamdriniaeth yn ystod plentyndod.

Dydych chi ddim ar eich pen eich hun.

**napac.org.uk**

**X:** @NAPAC

**Instagram:** @napac.uk

**Facebook:** NAPAC – The National Association for People Abused in Childhood

**Ffôn (gwasanaeth cymorth):** 0808 801 0331

**Nod y Tasglu Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant yw gwella'r ymateb plismona i gamfanteisio'n rhywiol ar blant mewn grwpiau er mwyn magu hyder dioddefwyr a goroeswyr, a'r cyhoedd yn ehangach.**

Mae'r Rhaglen Hydrant yn arwain y Tasglu Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant ac fe'u cefnogir gan ddwy raglen blismona genedlaethol arall, y Rhaglen Trechu Camfanteisio Cyfundrefnol (TOEX) a Rhaglen Gwybodaeth ac Ymarfer Bregusrwydd (VKPP).

Mae pob un ohonyn nhw mewn sefyllfa unigryw i gynnig cefnogaeth, cyngor ac arweiniad i heddluoedd, partneriaid a rhanddeiliaid sy'n gweithio ym maes ymchwilio i amddiffyn plant ac i gamdriniaeth.

© Cymdeithas y Plant 2024. Mae hawlfraint holl ddeunydd y cyhoeddiad hwn yn eiddo i Gymdeithas y Plant. Ni ellir ei atgynhyrchu, ei ddyblygu neu ei gopïo mewn unrhyw ffordd heb ein caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw.

Rhif Gofrestru'r Elusen. 221124
Lluniau: Chris O'Donovan, Francis Augusto, Ieva Umbrasaite, Laura McClusky.

MCB414/1024.

The Children's Society | napac The National Association for People Abused in Childhood | Child Sexual Exploitation Taskforce